GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch: Cam ymgysylltu Iechyd Cyhoeddus Cymru

Crynodeb

## Pam gwaith teg ac iechyd, llesiant a thegwch?

Mae gwaith ac amodau gwaith yn benderfynyddion allweddol iechyd, llesiant a thegwch iechyd, ac mae gweithlu iach ac ymgysylltiedig yn cyfrannu at gynhyrchedd busnes a ffyniant cymdeithasol. Gwaith teg yw lle mae gweithwyr yn cael eu gwobrwyo yn deg, eu clywed a'u cynrychioli, yn ddiogel, ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd cynhwysol ac iach, lle mae hawliau'n cael eu parchu.

Mae sicrhau bod gan y rhai sy'n profi anfantais fynediad at waith teg yn parhau i fod yn ffordd hanfodol o wella iechyd a llesiant tymor hir unigolion ac aelwydydd, gan gynnwys plant. Mae cymryd rhan mewn gwaith teg yn rhoi ymdeimlad o bwrpas ac yn golygu bod gan bobl arian ac adnoddau ar gyfer bywyd iach iddyn nhw a'u teuluoedd. Mae hyn yn lleihau straen seicolegol, yn creu llwybr allan o dlodi ac yn helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd. Gall gwaith teg gyfrannu at economi lesiant, gan wella canlyniadau i'r boblogaeth gyfan, gan gynnwys y rhai mwyaf difreintiedig.

## Beth wnaethom ni?

Yn 2021, gwnaethom sefydlu panel arbenigol i gefnogi'r broses o ddatblygu argymhellion ar gyfer partneriaid lleol a rhanbarthol i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg er mwyn gwella iechyd, llesiant a thegwch. Lansiwyd amrywiaeth o ddeunyddiau gennym ym mis Mai 2022 sy'n amlygu chwe maes ar gyfer gweithredu i alluogi asiantaethau lleol i wella cyfranogiad mewn gwaith teg er mwyn datblygu iechyd, llesiant a thegwch.

Rhwng haf 2022 a 2023, mae'r Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag asiantaethau ledled Cymru er mwyn:

- Eu cynorthwyo i gysylltu gwaith teg ac iechyd, llesiant a thegwch a deall pa gamau y gallant eu cymryd.
- Dylanwadu ar waith yr uned yn y dyfodol trwy ddeall blaenoriaethau, gwerthoedd, dulliau a heriau rhanddeiliaid, unrhyw beth a ddysgwyd a'u hanghenion presennol.

## Beth ddarganfuom ni?

Adolygu cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Canfu ein hadolygiad o Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol fod ymrwymiadau a chamau gweithredu ar draws y pedwar fframwaith i wella a chynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg o ran y cyflog byw gwirioneddol a gwella mynediad at swyddi cynaliadwy a'u creu. Mae hanner cynlluniau Cyflogadwyedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cyfeirio at waith teg.

Bu cynnydd yn nifer y cynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfeirio at amodau gwaith neu gyflogaeth. Nodweddion gwaith teg ystyriwyd yn bennaf oedd, twf a chynnydd trwy weithgareddau fel gwirfoddoli, hyfforddi, uwchsgilio, addysg a phrentisiaethau.

Cynnydd yn y gyfran o gynlluniau llesiant BGC yn cyfeirio at gyflogaeth a/neu nodweddion gwaith teg

**37% → 85%**

## Gwybodaeth gan Randdeiliaid

Cydnabu rhanddeiliaid, o dan bwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, fod y cyd-destun a'r gweithgarwch i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg yn fwy cyflawnadwy a chefnogol o fewn y sector cyhoeddus na y sector breifat yng Nghymru.

Mae y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), yn ceisio gwella gwasanaethau cyhoeddus trwy "waith partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol", gan gryfhau cyrff sector cyhoeddus ymhellach yn eu partneriaethau cymdeithasol a'u dyletswyddau caffael mewn perthynas â gwaith teg.

Cydnabu timau Iechyd Cyhoeddus lleol y cyfle i ddylanwadu ar gylchoedd cynllunio strategol o fewn Byrddau Iechyd a chyda phartneriaid eraill, yn ogystal â datblygu gwaith yn ymwneud â'r cyflog byw gwirioneddol, mynediad at hyfforddiant, addysg a phrentisiaethau, a phrosesau caffael. Amlygwyd nifer o feysydd arfer da a gweithgareddau yn gysylltiedig â gweithgareddau Byrddau Iechyd ac yn eu rôl fel Sefydliad Angori.

## Beth yw’r heriau a’r rhwystrau sy’n wynebu asiantaethau lleol a rhanbarthol mewn perthynas â gwaith teg?

Diffyg casglu a monitro data am waith teg yn lleol ac yn rhanbarthol




Pwyslais ar dwf a datblygu economaidd




Effaith y dirywiad economaidd



Problemau recriwtio a chadw



Pwysau ar gyflawni gwasanaethau



Pwysau cyllid a chyllideb



## Casgliad

Mae ein hymgysylltiad â phartneriaid cenedlaethol, lleol a rhanbarthol wedi bod yn llwybr i ddylanwadu ar gamau gweithredu i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg a datblygu perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol. Mae’n ymddangos bod yr ymdrech fwyaf i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg yn ymwneud â’r cyflog byw gwirioneddol, caffael a chynyddu cyfleoedd ar gyfer mynediad, twf a chynnydd. Wrth i ranbarthau ddatblygu eu hymagweddau, eu cynlluniau a’u gweithgareddau, byddai’n werthfawr ystyried nodweddion eraill gwaith teg.

Dylai rhandaliad cymryd camau i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg trwy sicrhau ymgorffori mewn polisïau a chynlluniau yn y dyfodol. Mae’r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sydd i ddod hefyd yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar gyrff sector cyhoeddus yn eu partneriaethau cymdeithasol a’u dyletswyddau caffael yn gysylltiedig â gwaith teg.

Mae potensial i archwilio ymhellach sut gall data gefnogi cysyniadau gwaith teg a sut gellid mesur cynnydd, gydag arweiniad pellach ar gasglu data a gwerthuso a monitro nodweddion gwaith teg ynghyd â mwy o ymchwil ynglŷn â graddau gwaith teg yng Nghymru.

PHW.Determinants@wales.nhs.uk     www.icc.gig.cymru/gwaithteg